

For learners of Welsh

Haul ar Fryn

Mae Derek Daniels sy'n byw yng Nghwmystwyth yn edrych ymlaen at Eisteddfod Tregaron.



Ar ôl byw **am yn agos i bedwar degawd** yn Llundain, fe symudais i gefn gwlad Cymru ym 2018, a mawr oedd fy llawenydd pan gyhoeddwyd mai yn Nhregaron y byddai Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020 yn cael ei chynnal. Dim ond hanner awr i ffwrdd gyda'r car. Byddai'r Genedlaethol ar fy ngharreg drws! Prin y gallwn aros.

A minnau wedi treulio fy holl yrfa ym mhrifddinas Lloegr, anaml iawn roedd y cyfle yn dod i neidio dros Glawdd Offa i ymuno â'r llu o eisteddfodwyr brwd a ddeuai ynghyd o bob cornel o'r wlad er mwyn blasu'r gorau o fyd y celfyddydau a mwynhau'r hwyl unigryw sy'n perthyn i wythnos y Brifwyl.

Ond cyn pen dim, cafodd fy mreuddwydion eu dryllio'n llwyr. Daeth Covid. Ac **yn ei sgil** daeth cyfnod clo. Safodd **y DU** yn stond a gohiriwyd pob digwyddiad mawr. Roeddwn wedi fy siomi'n llwyr.

Dim ond dwywaith roeddwn wedi bod ar faes yr Eisteddfod cyn symud i Gymru ac ar bob achlysur roeddwn i wedi mwynhau **ymsuddo** i ddiwylliant y Gymru Gymraeg yn enfawr. I rywun fel fi, **ieithydd** a Sais sydd wedi dysgu Cymraeg, ni fyddai wythnos yn ddigon o bell ffordd er mwyn cael blas ar holl arlwy yr Ŵyl. **Ond at fy nant yn arbennig** yw seremonïau'r Cadeirio a'r Coroni, y gwahanol gystadlaethau cerddorol, y babell lân, perfformiadau theatr, ac fy mhrif wendid – y stondinau llyfrau!

Yr hyn a'm trawodd yn bennaf ar y ddau achlysur hynny y bûm yn yr Eisteddfod, oedd brwdfrydedd y genhedlaeth a oedd yn amlwg yn **ymfalchïo mewn bod yn Gymry Cymraeg**, a mwynhau bod yn rhan o genedl sydd mor falch o'r diwylliant a'r traddodiadau a fynegir drwy gyfrwng iaith, A hynny ar ôl brwydro mor ddewr i'w hamddiffyn.

Ac er mor drist oedd gweld yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei gohirio ddwywaith yn olynol, rwyf yn siŵr bydd gweld **y to sy'n codi** yn cael y cyfle o'r diwedd i ddangos eu doniau ar lwyfan Tregaron yn 2022, yn bleser **byth-gofiadwy**. Prin y gallaf aros tan fis Awst!

Geirfa

am yn agos i bedwar degawd – for almost four decades

yn ei sgîl – in its wake

y DU – the UK

ymsuddo – to immerse myself

ieithydd - linguist

Ond at fy nant yn arbennig – my particular cup of tea

ymfalchïo mewn bod yn Gymry Cymraeg – to take delight in being Welsh speaking Welsh

y genedl a'u magwyd – the nation which raised them

y to sy'n codi – the younger generation

byth-gofiadwy – never to be forgotten